

PWYLLGOR

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

DYDDIAD

8 MEDI 2022

TEITL

BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR

PWRPAS YR ADRODDIAD

CYFLWYNO AMLINELLIAD O RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR AM
2022/23

AWDUR

DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID

GWEITHREDIAD

ER GWYBODAETH

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw rhoi amlinelliad o raglen waith y Pwyllgor am y flwyddyn i ddod, hyd at Chwefror 2023, sydd wedi ei gynnwys yn yr Atodiad.
- 1.2 Mae'r eitem hon yn gyfle i holl aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried yr eitemau sydd i'w trafod yn ystod y cyfnod yma, er mwyn cyflawni rôl y Pwyllgor o fewn Fframwaith Lywodraethu'r Cyngor, a rhoi cyfle i'r aelodau baratoi fel bo'r angen.
- 1.3 Wrth gwrs, gall union ffurf y rhaglenni pwyllgor fod yn wahanol erbyn y cyfarfodydd, yn ddibynnol ar amgylchiadau ar y pryd. Gall hyn gynnwys materion sydd wedi codi mewn gwaith archwilio, yr angen i ystyried materion penodol yn y maes llywodraethu ehangach, neu faterion yn codi o rôl craffu'r Pwyllgor mewn perthynas â materion corfforaethol.

2. ARGYMHELLIAD

- 2.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried cynnwys y blaen raglen atodol, holi'r swyddogion am yr eitemau fel bo'r angen, a chynnig sylwadau.